| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **1 Rhagfyr 2025** |
| **TEITL:** | **ADOLYGU POLISÏAU TACSI CYNGOR GWYNEDD**<br>- Polisi Collfarnau Perthnasol – Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr<br>*Dogfen Canllawiau Addasrwydd y Sefydliad Trwyddedu - Canllawiau ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai yn y diwydiant Cerbydau Hacni a Hurio Preifat* |
| **PWRPAS:** | **CYFLWYNO DOGFENNAU POLSI DIWYGIEDIG ER CYMERADWYAETH ER MWYN EU MABWYSUADU YN DDI-OED A'I CYNNWYS YN Y POLISI TRWYDDEDU TACSI UNEDIG NEWYDD FYDD YN DESTUN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Fel y gwyddoch fel fu i mi adrodd i'r Pwyllgor hwn ar y 10fed o Fawrth 2025 fod holl bolisïau tacsi cyfredol y Cyngor parthed gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr yn destun proses o adolygiad; gyda bwriad o ffurfio un polisi Unedol newydd ar gyfer trwyddedu tacsis

1.2 Fe fydd amryw o ganllawiau, gweithdrefnau a pholisïau yn cael eu hadolygu ai mabwysiadu fel rhan o'r Polisi Unedol arfaethedig

1.3 Fe fabwysiadwyd y Polisi 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' yn 2014 yn dilyn darn o waith rhanbarthol lle datblygwyd canllawiau ar y cyd rhwng awdurdodau trwyddedu Cymru, er mwyn ceisio datblygu cysondeb rhwng y cynghorau wrth benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai i ddal trwyddedau tacsi.

1.4 Yn unol ag adran 51 , 55 a 59 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ( Y Ddeddf) mae'n rhaid i unigolyn sydd yn ceisio am drwydded , neu yn ceisio i adnewyddu trwydded gyrrwr cerbyd hacni, gyrrwr cerbyd hurio preifat neu Weithredwr Cwmni Hurio Preifat - gyflwyno tystiolaeth digonol i'r Awdurdod Drwyddedu er mwyn eu galluogi i benderfynu os yw yr unigolyn yn berson 'addas a phriodol' i ddal y drwydded honno.

1.5 Nid oes dehongliad penodol o beth yw y safon disgwyliedig i brofi addasrwydd a diogelwch unigolyn i ddal trwydded tacsi, ond mae adran 57 o'r Deddf yn darparu'r hawl i awdurdodau trwyddedu i ofyn am dystiolaeth /dogfennau gael eu cyflwyno gyda cais i alluogi'r Awdurdod i benderfynu os yw y person yn 'addas a phriodol'

1.6 Mae pob ymgeisydd yn cwblhau cais am DBS lefel uwch, ac tystysgrif feddygol a datganiad o ffitrwydd corfforol yn unol a safonau Grŵp 2 y DVLA. Mae gwiriadau ychwanegol yn cael ei ystyried hefyd megis gwiriad o fas data cofnodion troseddau Cenedlaethol ( NR3) . Yn achlysurol mae yr Heddlu yn datgelu gwybodaeth i'r Cyngor ar ymchwiliadau troseddol perthnasol lle mae unigolyn sydd eisoes yn yrrwr tacsi o dan ymchwiliad am drosedd difrifol neu wedi ei harestio.

## 2.0 CANLLAWIAU Y SEFYDLIAD TRWYDDEDU AR BENDERFYNU AR ADDASRWYDD YMGEISWYR A THRWYDDEDAI YN Y DIWYDIANT CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT 2024

2.1 Yn 2018 fe gyhoeddodd y Sefydliad Trwyddedu ganllawiau i gynorthwyo Awdurdodau Trwyddedu wrth benderfynu ar addasrwydd unigolion i feddu ar drwydded gyrru tacsi neu trwydded gweithredwr. Roedd y ddogfen *Canllawiau Addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai yn y diwydiant cerbydau hacni a hurio preifat 2018* yn cynnig canllawiau ychwanegol i Awdurdodau Lleol ac fe benderfynodd y Pwyllgor hwn fabwysiadau y ddogfen fel canllawiau ychwanegol swyddogol i'w hystyried law yn llaw a pholisi Collfarnau y Cyngor

2.2 Yn 2024 , fe adolygwyd y canllawiau hyn i ystyried Canllawiau Ymarfer Gorau Adran Trafnidiaeth y Llywodraeth yn 2023 - ac fe gyhoeddwyd dogfen diwygiedig o'r Canllawiau Addasrwydd yn mis Tachwedd 2024.

2.3 Mae'r Canllawiau Addasrwydd yn caniatáu swyddogion ac aelodau i roi ystyriaethau i faterion ehangach sydd yn effeithio addasrwydd a diogelwch person i fod yn meddu ar drwydded tacsi; ac mae yn cyfarch ystyriaethau fel pryderon Diogelu Plant a pobl fregus mewn manylder.

## 3.0 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R MEINI PRAWF ADDASRWYDD AR GYFER GYRRWYR A GWEITHREDWYR

3.1 Mae prif egwyddorion y Meini Prawf Addasrwydd yn aros yr un fath yn y fersiwn diwygiedig o'r polisi. Mae'r prif newidiadau yn canolbwyntio ar alinio Polisi Meini Prawf y Cyngor gyda Canllawiau Addasrwydd y Sefydliad Trwyddedu, a pholisïau a weithredir mewn cynghorau eraill - megis –

- Ni ddylid ystyried ceisiadau am drwydded o dan unrhyw amgylchiadau lle mae troseddau wedi arwain at farwolaeth drwy yrru.
- Troseddau o Anonestrwydd – newid y cyfnod na ddylid ystyried caniatáu cais o 3 blynedd o ddiwedd dedfryd i 7 blynedd
- Cyfnod na ddylid ystyried cais yn dilyn gwaharddiad gyrru wedi ei ymestyn i 7 mlynedd am yrru o dan ddylanwad alcohol neu chyffuriau o ddiwedd cyfnod y gwaharddiad
- Ni ddylid ystyried caniatáu trwydded lle mae unigolyn wedi ei gael yn euog ddwy waith am yrru o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau , neu am fethu a rhoi prawf.
- Lle mae trwydded yrru DVLA unigolyn wedi ei ddirymu a gwaharddiad gyrru o 5 mlynedd neu fwy wedi bod – ni ddylid ystyried caniatáu trwydded hyd nes fod 7 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r cyfnod gwahardd ddod i ben.
- Arweiniad pendant am benderfyniadau le mae arnodiadau ( pwyntiau ar drwydded yrru DVLA
- Cadarnhau y bydd cais yn cael ei wrthod lle mae unrhyw awdurdod trwyddedu wedi diddymu trwydded yr ymgeisydd os yw y cais wedi ei wneud lai na 3 blynedd ers i'r drwydded gael ei ddiddymu
- Bydd cais yn cael ei gyfeirio yn syth am benderfyniad Pwyllgor lle mae trwydded wedi ei ddiddymu oddifewn i gyfnod o 5 mlynedd cyn cyflwyno'r cais
- Ehangu y rhestr o droseddau rhyw ac anweddustra difrifol

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ystyried y cynigion arfaethedig o ran adolygu y 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' a'i cymeradwyo ar gyfer eu gweithredu o'r 1af o Ionawr 2026

4.2 Cymeradwyo mabwysiadu canllawiau diweddaraf y Sefydliad Drwyddedu - *Canllawiau Addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai yn y diwydiant cerbydau hacni a hurio preifat 2024*, ac unrhyw ddiweddariadau fydd yn dilyn fel canllawiau swyddogol ychwanegol i'w ystyried ochr yn ochr a pholisi collfarnau Meini Prawf Addasrwydd y Cyngor.

4.3 Ystyried os oes angen cynnwys unrhyw ofyniad arall yn y Meini prawf addasrwydd